
Saesneg at ddibenion academaidd – L185

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl ar-lein hwn yn meithrin yr iaith benodol sydd ei hangen i sicrhau astudiaeth academaidd llwyddiannus mewn Saesneg. Mae'n cynnwys elfennau craidd cyffredin Saesneg at ddibenion academaidd mewn dau llyn – un yn cynrychioli gwyddoniaeth, mathemateg, cyfrifiadureg a thechnoleg – a'r llall yn cynrychioli'r celfyddydau, y dyniaethau, y gwyddorau cymdeithasol, busnes ac astudiaethau iechyd. Mae hyn yn galluogi'r myfyrwyr i feithrin y Saesneg academaidd sydd fwyaf perthnasol i'w hastudiaeth. Mae'n seiliedig ar destunau sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys deunydd darllen y modiwl, aseiniadau myfyrwyr, cynrychioliadau llafar a rhyngweithiadau llafar. Bydd y myfyrwyr hefyd yn ystyried y Saesneg a ddefnyddir mewn diwylliant academaidd Gorllewinol, ac yn ei chymharu â'r Saesneg a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r byd.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd dosbarth cyntaf (neu gymhwyster cyfatebol) mewn disgyblaeth sy'n berthnasol i'r modiwl – er enghraifft ieithyddiaeth, astudiaethau iaith Saesneg neu debyg
- cymhwyster addysgu priodol, er enghraifft CELTA/DELTA, neu TAR
- profiad o addysgu Saesneg at Ddibenion Academaidd, Saesneg at Ddibenion Penodol neu Sgiliau Astudio
- profiad o addysgu oedolion ar lefel cyn gradd neu israddedig
- y gallu i gefnogi a hwyluso grŵp o ddysgwyr amrywiol, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol, myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr cartref a myfyrwyr rhyngwladol (y rhai sy'n siaradwyr Saesneg brodorol a'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol)
- mynediad at gyfrifiadur sy'n cydymffurfio â'r manylebau a bennir ar y wefan cyfrifiadura bersonol ar gyfer L185.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- cymhwyster ôl-raddedig mewn disgyblaeth sy'n berthnasol i'r modiwl, er enghraifft MA mewn TESOL, Ieithyddiaeth Gymhwysol
- gwybodaeth am faterion a datblygiadau cyfredol ym maes addysgu a dysgu llythrennedd academaidd ar lefel addysg bellach neu addysg uwch
- profiad diweddar o addysgu Saesneg at Ddibenion Academaidd yn y sector trydyddol
- profiad o addysgu Saesneg at Ddibenion Academaidd Penodol
- profiad o addysgu ar-lein.

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.5

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw hyn yn berthnasol.